<p>Risks associated with significant service changes need to be better reflected within the decision reports so that the Council's decision is informed properly. Any notable adverse impacts identified within the impact assessment should be reflected within the risk assessment.</p>	<p>The guidance notes contained within the Report Templates will be reviewed to emphasise the need to identify and clearly explain within the body of the report any associated risk and impacts.</p> <p>Strategic Planning Team Manager and Head of Legal, HR and Democratic Services 31 March 2019</p>	<p>Strategic Planning Team Manager and Democratic Services Manager have discussed new wording for report templates. Report template has been updated with revised wording to promote consideration of risks arising from the decision to proceed.</p> <p><i>Further action planned to ensure that relevant officers use the current template and complete the section correctly.</i></p>

Improvement Area	Action	Current Status
<p>Promote officer awareness of the code of conduct including declaration of interests and whistleblowing policy</p>	<p>An e-learning training module will be rolled out to new staff initially and then to all staff.</p> <p>Strategic HR Manager</p> <p>31 March 2019</p>	<p>The e-learning training module is on track for being rolled out imminently.</p> <p><i>Monitoring Officer due to attend Service Management Team meetings to raise awareness of the code of conduct etc.</i></p>
<p>Budget gap identified in the MTFP and a new programme board is being established to identifying savings.</p> <p>The Council needs to capture how savings will be achieved within the required timeframe to address the budget gap.</p>	<p>Board established, terms of reference agreed and process for 2019/20 begun.</p> <p>Head of Finance</p> <p>28 February 2019</p>	<p>Report to Corporate Governance Committee in September 2018 outlined the Reshaping the Council board and its purpose to ensure the Council is able to deliver the required savings.</p>
<p>Transition relating to changes within the Senior Leadership Team to minimise impact to service delivery.</p>	<p>Processes in place to manage changes at senior level to ensure new officers fully deliver their roles and responsibilities effectively.</p> <p>SLT & HR 31 December 2018</p>	<p>This is being managed on a case by case basis.</p> <p>Change at the senior level has embedded and no sign of any adverse effect on service delivery.</p>

Tuesday 22

Improvement Area	Action	Current Status
<p>Increased reliance on partners to work with the Councils to deliver key services requires robust arrangements for overseeing and monitoring to ensure that they are effective.</p>	<p>Review Partnership Governance Manual and SLT to be made aware so that partnerships apply the requirements.</p> <p>Strategic Planning Team Manager & SLT 31 March 2019</p>	<p>This year's service challenge process has an emphasis on alternative service delivery models (ASDMs). Services are required to complete information around the partnerships and ASDMs it is involved in along with details of monitoring arrangements in place.</p> <p>This will enable the service challenge process to challenge any ASDMs that are not perceived to be effective.</p> <p><i>Summary report to be shared with Corporate Governance Committee by its July 2019 meeting. This will be presented alongside the updated Partnership Governance Manual.</i></p>
<p>Increasing number of core services are being delivered through large and complex contracts require effective arrangements for contract management.</p>	<p>Internal Audit review of Contract Management in 2018/19.</p> <p>Chief Internal Auditor 30 June 2019</p>	<p>Internal Audit of Contract Management underway and on track to meet the deadline.</p>
<p>Demonstrate that proposed benefits are achieved from major programmes and projects.</p>	<p>Internal Audit review of programme and project management benefit realisation in 2018/19.</p> <p>Chief Internal Auditor 31 March 2019</p>	<p>Internal Audit of programme and project management on course to meet the deadline. The audit includes a review of closed projects to assess evidence of benefit realisation being undertaken.</p>

Improvement Area	Action	Current Status
<p>Compliance with General Data Protection Regulations (GDPR) from May 2018 will require significant resource from across the Council.</p>	<p>Information Governance Group has developed an action plan and reliance on services to assist with implementing the necessary actions to comply with the new regulations. Communication and mandatory training to be delivered as per the action plan.</p> <p>Head of Business Improvement & Modernisation 31 March 2019</p>	<p>The Information Governance Group's action plan is making progress, as summarised below:</p> <ul style="list-style-type: none"> • GDPR e-learning training is mandatory for all staff. Chasing those that have not completed it to date. • Council Information Assets Register is operational and plan to publish it on the Council's internet. • Contracts' wording is amended for new contracts going forward, and a review of existing contracts is underway to update wording. <p><i>Recently commenced an Internal Audit review of GDPR.</i></p>

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	10 Ebrill 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid
Awdur yr Adroddiad:	Steve Gadd, Prif Gyfrifydd
Teitl:	Cynllun Archwilio 2019 Cyngor Sir Ddinbych

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae adroddiad o'r enw 'Cynllun Archwilio 2019 – Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac wedi ei atodi. Mae'r adroddiad yn egluro'r rhaglen waith sydd wedi ei chynllunio ar gyfer rhaglen archwilio perfformiad a rhaglen archwilio ariannol SAC. Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin â materion fel y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o safbwynt y tîm archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae angen i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad SAC. Bydd cynrychiolwyr SAC yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

4. **Manylion yr adroddiad**

Mae adroddiad SAC yn amlinellu rhaglen waith yr archwiliad ariannol a'r archwiliad o berfformiad i'r Cyngor. Mae'r rhaglen archwilio ariannol yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt datganiadau ariannol 2018-19. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi'u nodi yn ystod y broses gynllunio gychwynnol a'r camau a gynigir i fynd i'r afael â nhw. Bydd y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Mae rhaglen waith yr archwiliad o berfformiad yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt y Mesur Llywodraeth Leol. Mae gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwasanaeth archwilio yn ddarpariaeth statudol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig hefyd ei fodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

- 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae'r ffioedd am y gwaith a wneir gan SAC o safbwynt y rhaglen waith archwilio ariannol a pherfformiad wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.
- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Prif Swyddog Cyllid ac uwch aelodau'r Adran Gyllid.
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae'r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.
- 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu effaith, neu eu lleihau.
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae'n angen i'r Archwilydd Penodedig, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013), archwilio ac ardystio cyfrifon y Cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cynllun Archwilio 2019 – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1124A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.
Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn **Atodiad 1**.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynllun Archwilio 2019

Crynodeb	4
Archwiliad o Gyfrifon	4
Archwiliad perfformiad	7
Ffi, tîm archwilio ac amserlen	9
Datblygiadau yn y dyfodol ar fy ngwaith archwilio	13

Atodiadau

Atodiad 1 – cyfrifoldebau perthnasol	14
Atodiad 2 – gwaith perfformiad yn amlinelliad archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd	17
Atodiad 3 – datblygiadau eraill yn y dyfodol	18

Crynodeb


- 1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan i yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol ac sy'n cyflawni fy rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:
 - archwilio ac ardystio a yw eich datganiadau ariannol yn 'wir ac yn deg';
 - asesu a oes gennych drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau;
 - archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni'r dyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur; a
 - chynnal astudiaethau i fy ngalluogi i wneud argymhellion i wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu i wella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.
- 2 Diben y cynllun hwn yw nodi fy ngwaith arfaethedig, pryd y caiff ei wneud, cost y gwaith hwn a phwy fydd yn ei wneud.
- 3 Nodir fy nghyfrifoldebau i, ynghyd â rhai'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn [Atodiad 1](#).

Archwiliad o gyfrifon

- 4 Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch'. Mae hyn yn darparu sicrwydd bod y cyfrifon yn:
 - rhydd rhag cam-ddatgan, boed trwy wall neu dwyll;
 - cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion perthnasol eraill; ac yn
 - cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.
- 5 Rwyf i hefyd yn ystyried a oes gan Gyngor Sir Ddinbych drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ac adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.
- 6 Mae [Atodiad 1](#) yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.
- 7 Mae'r gwaith archwilio yr wyf yn ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i fy asesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol wrth ddarparu sicrwydd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae fy null archwilio yn cynnwys tri cham a nodir yn [Arddangosyn 1](#).

Arddangosyn 1: fy null archwilio

Mae'r tabl hwn yn crynhoi tri cham fy null archwilio ariannol, sef cynllunio, profi ac adrodd.



- 8 Nodir y risgiau camddatgan sylweddol sy'n arwyddocaol yn fy marn i ac felly y mae angen ystyriaeth archwilio arbennig arnynt yn **Arddangosyn 2** ynghyd â'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â nhw. Mae meysydd archwilio allweddol eraill y bydd fy nhîm yn canolbwyntio arnynt wedi'u cynnwys hefyd.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif risgiau archwilio ariannol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad

Risg archwiliad ariannol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
Risgiau arwyddocaol	
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau i'w gweld ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai'r gwrthwneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am duedd;• gwerthuso'r sail resymegol i unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol; ac• adolygu'r arfarniadau beirniadol a wnaed gan y Cyngor o ran priodoldeb ac am dystiolaeth o duedd.

Risg archwiliad ariannol	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
Meysydd eraill y bydd yr archwiliad yn rhoi sylw iddynt	
Ailbrisió Eiddo, Offer a Chyfarpar Nododd ein harchwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2017-18 y Cyngor nifer o wallau o ran y driniaeth gyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth ailbrisió asedau.	Byddwn yn llunio profion archwilio i sicrhau bod yr ymarfer ailbrisió wedi'i gynnal yn briodol a bod yr ailbrisiadau gofynnol wedi'u cyfrifyddu yn gywir yn natganiadau ariannol 2018-19.

- 9 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, yn hytrach rwy'n mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau sylweddol, hynny yw, y rhai hynny a all arwain at gamarwain darlennydd y cyfrifon. Bydd y lefelau yr wyf i'n barnu bod y camddatganiadau yn sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Cyngor cyn cwblhau'r archwiliad.
- 10 At ddibenion adrodd, byddaf yn trin unrhyw gamddatganiad sydd islaw lefel 'ddibwys' (perthnasedd o 5%) yn un nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ei ystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.
- 11 Mae fy ffioedd a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad wedi'i seilio ar y tybiaethau canlynol:
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u darparu'n unol â'r amserlen y cytunwyd arni, o'r ansawdd disgwylidig ac maent wedi bod yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd trylwyr;
 - mae'r wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt¹;
 - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
 - mae gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i ddarparu'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau wedi'i gyfeirio ataf i; ac
 - mae rhaglen waith yr Archwiliad Mewnol yn gyflawn ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i'r materion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

¹ Mae'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion disgwylidig o ran dogfennau gweithiol i gefnogi'r datganiadau ariannol ac mae'n cynnwys amserlen a chyfrifoldebau.

Swyddogaethau archwilio statudol

- 12 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gen i gyfrifoldebau statudol hefyd i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddff Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
 - Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
 - Adran 31 Yr hawl i wrthwynebu yn ystod archwiliad.
- 13 Caiff ffioedd archwilio eu codi am waith a wneir i ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr. Gan y bydd gwaith archwilio yn dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, nid yw'n bosibl amcangyfrif ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.
- 14 Os wyf i'n derbyn cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

Gwaith archwilio ariannol arall

- 15 Rwyf i hefyd yn gyfrifol am archwiliad annibynnol Gydbwyllgor yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Nid wyf wedi nodi unrhyw risgiau penodol o ran y Cydbwyllgor.
- 16 Mae fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn [Arddangosyn 4](#).

Archwiliad perfformiad

- 17 Mae angen i mi gydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrion, cymesur wedi'u seilio ar risg. Wrth gyflawni fy nyletswyddau, byddaf yn parhau i gyflawni'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth trwy:
 - ddarparu sicrwydd ynghylch trefn lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus;
 - cynnig cipolwg ar i ba raddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth wrth ddiwallu anghenion pobl; a
 - nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.
- 18 Gan ei bod yn debygol y bydd Bil Llywodraeth Leol Cymru disgwylidig yn cynnig nad yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn berthnasol i gynghorau mwyach, byddaf yn lleihau gymaint â phosibl y gwaith sy'n canolbwyntio ar y broses o wella cynllunio.
- 19 Yn fy nghynllun archwilio ar gyfer 2018 esboniais fy mod i, mewn blynyddoedd blaenorol, wedi rhoi dibyniaeth ar fy ngwaith o dan y Mesur i fy helpu i gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fodloni fy hun bod gan gynghorau drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) wrth ddefnyddio adnoddau. O ystyried ei bod yn debygol na fyddaf yn gallu dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur

yn y dyfodol, yn 2019-20 ac mewn blynyddoedd dilynol, bydd pwyslais fy rhaglenni archwilio perfformiad lleol yn parhau i gyfochri'n fwy eglur â chyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

- 20 Yn 2018-19 archwiliais i ba raddau yr ydych yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant. Yn ystod 2019-20 byddaf yn cynnal archwiliad arall i asesu i ba raddau yr ydych yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant. Hwn fydd y darn olaf o waith y byddaf yn ei wneud i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y Cyngor cyn cyflwyno fy adroddiad cylchol cyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Yn ystod 2019-20, byddaf i hefyd yn ystyried sut i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Ddeddf yn ystod y cyfnod 2020 hyd 2024 a byddaf yn ceisio ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn ogystal â rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu fy null.
- 21 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol hefyd. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ffioedd lleol. Mae'r astudiaethau hyn yn arwain ar y cyfan at adroddiad cenedlaethol wedi'i atgyfnerthu gan arferion da a chanlyniadau dysgu ar y cyd yn hytrach na gan adroddiadau lleol. Caiff canfyddiadau lleol, pan fyddant yn briodol, eu cofnodi mewn gwaith asesu gwelliant a'u hadrodd mewn adroddiadau gwella blynyddol yn dibynnu ar amseriad a phwyslais y casgliadau.
- 22 Wrth ystyried yr holl gasgliadau hyn, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2019-20 yn cynnwys:

Arddangosyn 3: rhaglen archwilio perfformiad

Mae'r tabl hwn yn nodi fy rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2019-20, a fydd yn cynnwys prosiectau lleol ac astudiaethau cenedlaethol

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Gwaith archwilio ac asesu gwelliant, gan gynnwys archwiliad o drefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant	Archwilio cyflawniad y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, a chyhoeddi asesiad o berfformiad.
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Archwiliad i ba raddau mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni ei amcanion llesiant.
Asesiad Risg a Sicrwydd	Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fydd angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran y risgiau i'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Rhaglen archwilio perfformiad	Disgrifiad byr
Cynaliadwyedd Ariannol	Prosiect sy'n gyffredin i'r holl gynghorau lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yn sgil heriau presennol a'r rhai y disgwylir yn y dyfodol.
Pwysau cyllidebol a chost ar y gwasanaethau cymdeithasol	Prosiect i edrych ar y pwysau cyllidebol a chost ar y gwasanaethau cymdeithasol.
Ailgylchu Trefol	Gwaith dilynol arfaethedig ar sail y canfyddiadau yn adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar Ailgylchu Trefol ac adolygu trefniadau Sir Ddinbych a fydd yn archwilio sut y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chymunedau ynghylch ailgylchu.
Astudiaethau Llywodraeth Leol 2019-20	(Wedi'u hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru) Yn ddiweddar, daeth ymgynghoriad Archwilydd Cyffredinol ar ei flaenraglen waith i ben a bydd astudiaethau llywodraeth leol newydd a fydd yn dechrau yn 2019-20 yn cael eu cadarnhau yn fuan.

- 23 Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sy'n parhau neu sydd wedi'u disodli gan brosiectau eraill drwy gytundeb â chi, wedi'u nodi yn **Atodiad 2**.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

Ffi

- 24 Mae eich amcangyfrif o ffi ar gyfer 2019 wedi'i nodi yn **Arddangosyn 4**. Bu rhai newidiadau bach i fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2019, fodd bynnag bydd fy nhimau archwilio yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau er mwyn sicrhau na fyddwch chi'n ysgwyddo unrhyw gynnydd yn y ffioedd.

Arddangosyn 4: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2019, yn ôl maes y gwaith archwilio, ynghyd â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd. Yr amcangyfrif o'r ystod o ffioedd ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni grant yw £45,000 i £50,000.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) ¹	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwiliad o gyfrifon ²	178,234	178,234
Gwaith archwilio perfformiad ³	94,084	94,038
Gwaith ardystio grantiau ⁴	47,500	48,937
Gwaith archwilio ariannol arall ⁵	1,134	1,134
Cyfanswm y ffi	320,952	322,343

Nodiadau:

¹ Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ni chodir hyn arnoch chi mwyach.

² Yn daladwy o fis Tachwedd 2018 hyd fis Hydref 2019.

³ Yn daladwy o fis Ebrill 2019 hyd fis Mawrth 2020.

⁴ Yn daladwy fel gwaith a wnaed.

⁵ Cydbwyllgor yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – yn daladwy fel gwaith a wnaed ac yn amodol ar y lefel o brofi sydd ei hangen.

- 25 Bydd cynllunio yn barhaus, ac efallai bydd angen newid fy rhaglen waith archwilio ac felly fy ffi, os bydd risgiau allweddol newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.
- 26 Mae rhagor o wybodaeth am [fy ngraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd](#) ar gael ar ein gwefan.

Y tîm archwilio

- 27 Crynhoir prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn [Arddangosyn 5](#).

Arddangosyn 5: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Swyddogaeth	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Derwyn Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Arweinydd Ymgysylltiad – Archwiliad Ariannol	02920 320651	derwyn.owen@audit.wales
Huw Rees	Arweinydd Ymgysylltiad – Archwiliad Perfformiad	02920 320599	huw.rees@audit.wales
Matthew Edwards	Rheolwr Archwilio Ariannol	02920 320663	matthew.edwards@audit.wales
Gareth Evans	Arweinydd Tîm Archwilio Ariannol	02920 829309	gareth.evans@audit.wales
Sara-Jane Byrne	Rheolwr Archwilio Perfformiad	07786 111385	sara-jane.byrne@audit.wales
Gwilym Bury	Arweinydd Archwilio Perfformiad	07813 564432	gwilym.bury@archwilio.cymru

- 28 Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau y gŵyr amdanynt i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na'r aelodau staff archwilio eraill, ac eithrio fel y nodir ym mharagraff 29, a fy mod i wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru.
- 29 Mae'r unig fygythiadau y gŵyr amdanynt ac y mae'n rhaid i ni eu dwyn i'ch sylw yn ymwneud â Matthew Edwards, y Rheolwr Archwilio Ariannol ac aelod o'r tîm. Mae aelod o deulu'r Rheolwr Archwilio Ariannol yn athro cyflogedig yn y Cyngor. O ganlyniad i hyn, ni fydd yn ymwneud ag unrhyw waith yn yr ysgol honno ac ni chaniateir ei ran mewn unrhyw waith archwilio arall o ran addysg heb fod asesiad risg wedi'i gynnal yn gyntaf. Hefyd, mae aelod o'r tîm archwilio yn perthyn i Swyddog y Cyngor a chymerwyd camau ychwanegol i ddiogelu ein hannibyniaeth a'n gwrthrychedd trwy sicrhau nad yw'n gwneud unrhyw waith archwilio ar y gyflogres.

Amserlen

- 30 Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunir arnynt i'r Cyngor yn ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy mhrif bwyntiau yn y broses yn [Arddangosyn 6](#).

Arddangosyn 6: amserlen

Mae'r tabl hwn yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau ac adrodd ar fy ngwaith archwilio ar yr awdurdod

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wnaed	Adroddiad wedi'i gwblhau
Cynllun Archwilio 2019	Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019	Mawrth 2019
Gwaith cyfrifon ariannol: <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol Barn ar y Datganiadau Ariannol Memorandwm Cyfrifon Ariannol 	Ionawr – Awst 2019	Awst 2019 Medi 2019 Medi 2019
Gwaith perfformiad: <ul style="list-style-type: none"> Archwiliad o'r Cynllun Gwella Archwiliad o'r Aseiad o Berfformiad Aseiad Risg a Sicrwydd Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Ailgylchu Trefol Pwysau cyllidebol a chost ar y gwasanaethau cymdeithasol Cynaliadwyedd ariannol 	Ebrill 2019 Tachwedd 2019 Hydref 2019 – Rhagfyr 2019 Gorffennaf 2019 – Tachwedd 2019 Gorffennaf 2019 – Tachwedd 2019 Medi 2019 – Chwefror 2020 Ebrill – Medi 2019	Ebrill 2019 Tachwedd 2019 Ionawr 2020 Rhagfyr 2019 Rhagfyr 2019 Mawrth 2020 Hydref 2019
Adroddiad Gwella Blynyddol	Ebrill 2019 – Mai 2020	Gorffennaf 2020
Llythyr Archwilio Blynyddol	Mai – Tachwedd 2019	Tachwedd 2019
Cynllun Archwilio 2020	Hydref – Rhagfyr 2019	Ionawr 2020

* Yn amodol ar gymeradwyo canfyddiadau drafft â'r Cyngor yn brydlon.

Datblygiadau yn y dyfodol ar fy ngwaith archwilio

Datblygiadau yn y dyfodol ar fy ngwaith archwilio

- 1 Nodir manylion datblygiadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau sydd ar ddod, i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol allweddol, seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwaith yr wyf wedi'i gynllunio ar barodrwydd y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer Brexit yn **Atodiad 3**.

Atodiad 1

Cyfrifoldebau perthnasol

Archwiliad o gyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a fy nyletswyddau i gyflawni eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar:

- eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan ddarparu sicrwydd eu bod yn:
 - rhydd rhag camddatgan, boed trwy wall neu dwyll;
 - cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion perthnasol eraill; ac yn
 - cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.
- cysondeb yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid imi nodi hefyd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion, os nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw, os nad yw'r datgeliadau angenrheidiol ynghylch cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill wedi'u gwneud neu os nad wyf i wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi asesu a oes gan Gyngor Sir Ddinbych drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau. I gyflawni hyn, rwy'n ystyried:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol y Cyngor, fel yr adroddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fy adroddiad arni;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed, gan gynnwys gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiad hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff arolygu allanol eraill pan fo hynny'n berthnasol i fy nghyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion na thrafodir uchod, ac sy'n angenrheidiol yn fy marn i er mwyn cyflawni fy nyletswyddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych, i ofyn i mi yr Archwilydd Penodedig, gwestiynau ynghylch y cyfrifon, a phan fo hynny'n briodol, i herio eitemau yn y cyfrifon. Mae'n rhaid i mi ystyried hefyd a ddylwn i lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau'r rheolwyr neu'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu o'u cyfrifoldebau, sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu perthnasol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o adnoddau.

Mae rheolwyr yn cytuno i:

- ganiatáu i mi weld yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol, fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ychwanegol y mae'n bosibl y byddaf yn gofyn i'r rheolwyr amdani at ddiben yr archwiliad; a
- chaniatáu i mi siarad ag unrhyw bersonau yn y Cyngor sy'n angenrheidiol yn y farn i er mwyn cael tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad.

Bydd angen i'r rheolwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig i mi yn cadarnhau:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod yr holl drafodiadau wedi'u cofnodi a'u cynnwys yn y datganiadau ariannol;
- y darparwyd gwybodaeth gyflawn i mi at ddibenion yr archwiliad; ac
- yn cefnogi tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu'r honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os wyf i o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n ofynnol yn ôl y Safonau Archwilio Rhyngwladol.

Archwiliad perfformiad

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi, trwy archwilio'r cyfrifon neu fel arall, fodloni fy hun bod y gan y corff drefniadau priodol ar waith i:

- sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- bod y corff, os yw'n ofynnol iddo gyhoeddi gwybodaeth yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 47 (gwybodaeth am berfformiad), wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu a chofnodi'r wybodaeth a'i chyhoeddi fel sy'n ofynnol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran honno.

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hefyd yn pennu gofynion penodol i awdurdodau nodi amcanion gwella a chyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau perfformiad. Diffiniad awdurdodau gwella yw cynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau parc cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, i bennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Mae'n rhaid i mi archwilio hefyd a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ac adrodd ar welliant.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn darparu adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn cysylltiad â hyn, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwiliadau ac asesiadau yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol (o dan adran 24). Bydd hyn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o arolygiadau arbennig.

Mae Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

- (a) bennu amcanion llesiant, a
- (b) chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n rhaid i mi gynnal archwiliad o'r fath ar bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd. Cyn diwedd y cyfnod, mae'n rhaid i mi adrodd ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Atodiad 2

Gwaith perfformiad yn amlinelliad archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd

Arddangosyn 7: gwaith perfformiad yn amlinelliad archwilio y llynedd sy'n parhau o hyd

Mae pedwar darn o waith archwilio perfformiad a oedd wedi'u cynnwys yng nghynllun archwilio y llynedd yn parhau i fod ar waith.

Prosiect archwilio perfformiad	Statws	Sylwadau
Archwiliad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (amddiffynfeydd llifogydd)	Ar darged. Cytuno ar ganfyddiadau a Chynllun Gweithredu'r Cyngor Chwefror 2019	Adroddiad drafft i'r Cyngor Mawrth 2019
Gwasanaethau hamdden	Dechreuodd gwaith maes Ionawr 2019	Adroddiad drafft i'r Cyngor Ebrill 2019
Trefniadau Diogelu Corfforaethol	Cytuno ar Briff y Prosiect Chwefror 2019. Gwaith maes Mai 2019	Adroddiad drafft i'r Cyngor Mehefin 2019
Adroddiad Gwella Blynyddol	Ar darged	Adroddiad drafft i'r Cyngor Mehefin 2019

Atodiad 3

Datblygiadau eraill yn y dyfodol

A. Newidiadau allweddol sydd ar y gweill i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Arddangosyn 8: newidiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Mae'r tabl hwn yn rhoi manylion y prif newidiadau yn y dyfodol i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Safon	Dyddiad dod i rym	Rhagor o fanylion
Lesoedd IFRS16	Disgwyllir yn 2020-21	Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon lesoedd presennol yn IAS 17. Y newid allweddol yw ei bod y dileu i raddau helaeth y gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredu ac ariannol ar gyfer lesddeiliaid, trwy gyflwyno un model cyfrifyddu i lesddeiliaid sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo nodi asedau a rhwymedigaethau ar gyfer yr holl lesoedd â chyfnod o fwy na 12 mis, oni bai bod gwerth isel i'r ased sylfaenol. Bydd yn arwain at nodi'r holl lesoedd ar y fantolen yn ased wedi'i seilio ar egwyddor hawl defnyddio â'r rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer ei logi yn y dyfodol. Mae hyn yn newid sylweddol i drefn gyfrifyddu lesddeiliaid.

B. Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella trwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth â phobl a rhannu adnoddau ar-lein. Y prif feysydd gwaith yw rheoli ariannol, staff a llywodraethu'r sector cyhoeddus.

C. Brexit: paratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig ag aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd

Yn unol ag Erthygl 50 o Gytuniad Rhufain, bydd y Deyrnas Unedig yn peidio â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019. Mae trafodaethau yn parhau, ac mae'n parhau i fod yn aneglur a gyrhaeddir cytundeb ar gyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2020, neu a fydd ymadawiad 'dim cytundeb' ar unwaith yn digwydd yn mis Mawrth.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dechrau rhaglen waith sy'n edrych ar y trefniadau y mae'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys holl gyrff y GIG, yn eu rhoi ar waith er mwyn paratoi ar gyfer ac ymateb i ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn ar ffurf trosolwg lefel uchel i weld beth sy'n cael ei roi ar waith ym

mhob rhan o sector cyhoeddus Cymru, a beth yw'r materion allweddol o safbwynt gwahanol rannau gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar ddau gam. Yn nhymor yr hydref 2018, cyhoeddodd alwad am dystiolaeth i lunio crynodeb sylfaenol o'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith. Ar 19 Chwefror, cyhoeddodd adroddiad² ar baratodau Cymru ar gyfer Brexit heb gytundeb. Caiff hyn ei ddilyn gan ragor o waith archwilio yn ystod gweddill 2019.

² Adroddiad ar Baratodau Brexit. <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/paratodau-yng-nghymru-ar-gyfer-brex-it-heb-gytundeb>.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660


E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru




Y defnydd o ddata gan Lywodraeth Leol

Cyngor Sir Ddinbych



Methodoleg a strwythur yr adroddiad hwn



Mae twf strategaethau ‘data mawr’ yn y sector preifat ac argaeledd ‘data agored’ wedi bod yn ddigynsail yn y cyfnod diweddar, ac wedi chwyldroi’r modd y mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau. Gyda’r dechnoleg sydd ar gael heddiw, a chyflymder presennol y newid technolegol, penderfyniadau a ysgogir gan ddata fwyfwy yw’r norm, yn hytrach na’r eithriad. Fodd bynnag, a yw’r dull newydd hwn o weithredu yn cyrraedd awdurdodau lleol Cymru?

Yn wyneb yr heriau hyn, mae’r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau’r astudiaeth genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru, a fu’n edrych i weld a oes gan lywodraeth leol y ‘deunyddiau adeiladu’ a’r diwylliant priodol i fanteisio ar y data a ddelir ganddi.

Mae Rhan 1 o’r adroddiad hwn yn crynhoi’r rhesymau pam y mae defnyddio data yn bwysig, ac mae’n deillio o ymchwil genedlaethol gyda rhai a fu’n arwain ym maes defnyddio data yn y sector cyhoeddus.

Mae Rhan 2 yn crynhoi’r materion allweddol sy’n codi o’r ymatebion i offeryn data, a ddarparwyd gan uwch-swyddogion ac aelodau etholedig ar ran Cyngor Sir Ddinbych.

Mae Rhan 3, yn nodi rhai enghreifftiau o arferion da a ganfuom yn ein hymchwil, ac y tybiwn y gallant helpu cynghorau i wneud gwell defnydd o’u data.

Mae’r canfyddiadau yn Rhan 2 o’r adroddiad hwn yn deillio o, ac yn seiliedig ar, y casgliad o ymatebion i Offeryn Data Swyddfa Archwilio Cymru, a ddarparwyd gan uwch-swyddogion ac aelodau etholedig Cyngor Sir Ddinbych.

O ganlyniad, yr hyn a ddarperir yw crynodeb yn unig o safbwyntiau’r staff a’r aelodau hynny a ymatebodd ynglŷn â’r modd y mae’r cyngor yn rheoli data, a dylid ei drin fel tystiolaeth fuddiol o’r modd y gall y cyngor wella’i ffordd o ddefnyddio data.

Felly, dylid darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr ag adroddiad yr astudiaeth genedlaethol, sy’n darparu manylach canfyddiadau, ac yn gwneud cyfres o argymhellion ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.

Rhan 1 – Pam y mae'n bwysig gwneud gwell defnydd o ddata

Mewn cyfnod estynedig o gynt, mae'r angen i **arloesi** yn fwy taer, er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddarparu gwell canlyniadau gydag adnoddau sy'n prinhau.

Mae defnyddio data mewn modd effeithiol yn cynnig **cyfleoedd enfawr** i ddarparu gwell gwasanaethau er gwaethaf y pwysau ariannol llym a chyson hyn


Fodd bynnag, canfu ein hastudiaeth genedlaethol mai **araf yw'r awdurdodau lleol ledled Cymru i ddatblygu diwylliant sy'n gwerthfawrogi data ac i'w defnyddio'n effeithiol i wella gwasanaethu a chanlyniadau.**

Gellir gweld ein hadroddiad cenedlaethol – **Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata** – ar ein gwefan **archwilio.cymru**.



Y buddion a ddaw trwy wneud gwell defnydd o ddata

Trwy fod yn graff a strategol wrth ddefnyddio data, gellir sicrhau llawer o fuddion i'r awdurdodau lleol, eu partneriaid, y cymunedau y gweithiant ynddynt ac i'r dinasyddion a wasanaethir.



**Pam y mae gwella'r
defnydd o ddata yn
bwysig i awdurdodau lleol**

Mae'n helpu
awdurdodau lleol i wneud
gwell defnydd o adnoddau
ac i fod yn fwy effeithlon

Ceir mewnwelediad
i'r pethau sy'n gweithio'n
dda a'r rhesymau
am hynny

Mae'n dda i ddemocratiaeth
pan fo penderfyniadau yn
seiliedig ar dystiolaeth,
ac yn agored
a thryloyw

Mae'n hwyluso
penderfyniadau gwell a
chyflymach trwy amlygu
tueddiadau a
mewnwelediadau

Mae'n hyrwyddo
integreiddio a chydweithio
rhwng partneriaid

Mae'n helpu i wella
ansawdd, cyrhaeddiad
ac effaith y
gwasanaethau

Mae'n hwyluso'r
trawsnewid o adweithio i
atal problemau

Mae'n cefnogi
cydweithio, integreiddio
a gweithio mewn
partneriaeth

Tudalen 50

Mae ein hadroddiad cenedlaethol ar y defnydd o ddata yn nodi saith elfen allweddol yn y broses o wneud defnydd gwell o ddata

O ganlyniad i'n gwaith, rydym wedi nodi'r hyn y tybiwn yw'r agweddau allweddol ar effeithiolrwydd wrth ddefnyddio data, ac wedi rhestru'r agweddau hynny yn y tabl isod. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad mai'r disgrifyddion ar lefel 1 a lefel 2 sy'n nodweddu mwyafrif yr awdurdodau.


Nodwedd allweddol	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
Arweinyddiaeth	Mae'r arweiniad a roddir, a diwylliant y sefydliad, yn annog agwedd sy'n gochel risg ac nad yw'n gwerthfawrogi data nac yn ceisio cynyddu'r defnydd ohonynt.	Mae'r arweinwyr yn cydnabod gwerth symleiddio, hwyluso a gwella'r defnydd o ddata, o fewn yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid. Nid yw'r diwylliant mewn rhan helaethaf o'r awdurdod eto wedi symud ymlaen o 'adnabod' cyfleoedd i integreiddio a rhannu data hyd at 'wneud' hynny mewn gwirionedd.	Mae gan y sefydliad ddiwylliant arweinyddol cryf sy'n seiliedig ar dryloywder ac ar werthfawrogi data a'u defnyddio i ategu penderfyniadau. Mae'r awdurdod yn rhannu data a mewnwleidiadau yn agored gyda dinasyddion, partneriaid a rhanddeiliaid, gan ddatgelu'r rhesymeg sydd y tu ôl i'w ddewisiadau. Gwerthfawrogi'r a defnyddir data ledled yr awdurdod.
Safonau Corfforaethol	Mae'r gwasanaethau'n gweithredu'n annibynnol mewn adrannau ar wahân, ac yn diffinio'u gofynion data eu hunain. Mae'r awdurdod yn amddifad o safonau corfforaethol a fyddai'n pennu sut y dylid casglu a defnyddio data, ac ychydig iawn o integreiddio neu rannu data sy'n digwydd, yn fewnol ac yn allanol.	Mae'r awdurdod lleol yn gwybod pa ddata a gesglir gan y gwasanaethau, ac mae rhai o'r cronfeydd data wedi'u croesgysylltu; ond wedi datblygu'n organig y mae'r rhwydweithio data. Nid oes gan yr awdurdod safonau data, ac er bod rhannu ac integreiddio data yn digwydd, mae hynny'n gyfyngedig i feysydd diffiniedig cul.	Mae gan yr awdurdod lleol safonau data a strwythurau codio corfforaethol. Mae'r awdurdod wedi pennu ei ofynion data hirdymor ac yn symleiddio a hwyluso'i systemau er mwyn lleihau dyblygu a gwella hygyrchedd. Mae'r data wedi'u hintegreiddio, a rhoddir sylw i'r bylchau codio a ganfyddir.
Data cwsmeriaid integredig	Mae defnyddwyr gwasanaethau yn aml yn gwneud ceisiadau nifer o weithiau am wasanaethau neu gymorth. Mae dyblygu data yn gyffredin, a rhai gwasanaethau yn dibynnu ar systemau llaw sy'n defnyddio papur.	Gwyddys bod dyblygu yn digwydd, ond ni roddir sylw i hynny bob amser. Mae rhywfaint o safoni hefyd yn digwydd, hynny fel arfer ynglŷn â pharmedrau sefydledig fel rhestrau eiddo, ond cyfyngedig yw hynny. Mae mwyafrif y data wedi'u digideiddio, ond heb eu croesgysylltu.	Unwaith y mae dinasyddion yn ymgeisio a ffurfweddir y gwasanaethau wedi'u ffurfweddu i ddiwallu'u hanghenion. Mae'r holl ddata wedi'u digideiddio ac yn cael eu glanhau'n rheolaidd i sicrhau eu cywirdeb. Mae'r gwaith o rannu ac integreiddio data wedi symud ymlaen ymhell, a dyblygu wedi ei leihau i'r eithaf.

Tudalen 51

Nodwedd allweddol	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
Diogelu Data	Deellir a chydymffurfir â'r ddeddfwriaeth ar ddiogelu data, ond ystyrir y ddeddfwriaeth yn rhwystr rhag rhannu data.	Deellir a chydymffurfir â'r ddeddfwriaeth ar ddiogelu data ac nid ystyrir hynny'n rhwystr rhag rhannu data.	Cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth ar ddiogelu data, ac mae gweithredu'r ddeddfwriaeth yn cynorthwyo'r awdurdod i rannu data yn briodol, yn fewnol a chyda cyrff eraill hefyd.
Dadansoddeg data	Cyfyngedig yw'r buddsoddi mewn dadansoddeg data – sef dadansoddi yn ôl segmentau, rhagolygu a dadansoddi rhagfynegiadol. Prin yw'r gallu a'r sgiliau y mae eu hangen i wella'r defnydd o ddata. Ychydig neu ddim yw'r buddsoddiad mewn uwchsgilio'r staff.	Cydnabyddir bod angen meithrin sgiliau a gallu, a buddsoddi i wella'r defnydd o ddata, ond ni roddir sylw i'r materion hyn bob amser. Deellir y risgiau a wynebir os na ellir gwella gallu ac uwchsgilio'r staff, ond araf neu gyfyngedig yw'r symudiad i fynd i'r afael â hynny.	Mae'r staff wedi'u harfogi â dadansoddeg data, a'r gwasanaethau yn defnyddio data o amrywiaeth o ffynonellau yn rheolaidd er mwyn deall digwyddiadau, rhagfynegi senarios a modelu'r galw posibl yn y dyfodol. Cydnabyddir a gwerthfawrogir dadansoddeg data fel swyddogaeth graidd a dyrennir adnoddau digonol iddi.
Penderfyniadau a ysgogir gan ddata	Adroddir am y data a dadansoddir perfformiad. Mae ffocws yr adroddiadau am berfformiad yn gyfyngedig i wybodaeth gan wasanaethau'r awdurdod lleol. Hanesyddol yw'r wybodaeth yn bennaf a'i thuedd yw edrych yn ôl. Nid adroddir mewn amser real. Yn anaml y defnyddir dadansoddeg data.	Adroddir am y data a dadansoddir perfformiad. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar fonitro a mesur effaith. Mae pwysigrwydd dadansoddeg data yn cynyddu, ond nid yw wedi'i gwreiddio nac wedi ei datblygu'n ddigonol mewn mwyafrif o'r gwasanaethau.	Adroddir am y data, a thrwy werthuso perfformiad, cymerir camau cywirol pan fo'r data'n dangos bod angen newid cyfeiriad. Mae gan yr awdurdod lleol hanes o ddefnyddio dadansoddeg data yn llwyddiannus i reoli ei wasanaethau, ac mae'n canolbwyntio ar ddeall maint y galw yn y dyfodol.
Data Agored	Nid yw'r awdurdod lleol yn defnyddio data mewn modd effeithiol i ategu'r broses o wneud penderfyniadau. Cyfyngedig iawn yw'r Data Agored a'r arferiad o adrodd yn gyhoeddus.	Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data i ategu'i benderfyniadau, ond mae natur gyfyngedig y cynnwys a'r dadansoddi'n gwanhau'r dewisiadau 'amser real'. Cynhyrchir Data Agored, ond cyfyngedig yw'r cynnwys.	Mae'r arferiad o wneud penderfyniadau a ysgogir gan y data wedi ei sefydlu'n gadarn; a derbynnir mai honno yw'r "ffordd y dylid gwneud pethau". Rhoddir Data Agored ar gael mewn amser real, ac mae ystod eang o sefydliadau yn defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu cyfleoedd newydd.

Tudalen 52

Mae gwella'r defnydd o ddata yn galw am...



Rhan 2 – Crynodeb o'r materion allweddol o'r ymatebion i'r offeryn data ar ran Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r adnodd hwn yn crynhoi sefyllfa **Cyngor Sir Ddinbych** yng nghyd-destun canfyddiadau ein hastudiaeth genedlaethol. Mae hefyd yn archwilio rhai o'r rhwystrau a ganfyddid yn lleol. Bydd goresgyn y rhwystrau hynny yn helpu'r Awdurdod a'i ddinasyddion i fanteisio ar y buddion a ddaw trwy wneud gwell defnydd o ddata. Strwythurwyd yr adnodd hwn o amgylch y pedair thema allweddol, y cyfeirir atynt yn ein hadroddiad cenedlaethol fel camau hollbwysig ar y 'daith data'. Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar gyfuniad o'r holl ymatebion i'r offeryn data.

Gweledigaeth, arweinyddiaeth a diwylliant

Mae diwylliant data cryf a llwyddiant o ran data yn cydblethu â'i gilydd, ac ni ellir cael y naill heb y llall. Er mwyn gwella defnydd awdurdodau lleol o ddata, bydd arnynt angen gweledyddion sy'n deall pwysigrwydd galluogi pobl i fentro cymryd risgiau a reolir yn dda, ac i ddysgu oddi wrth eu methiannau. Mae'r awdurdodau sy'n defnyddio data orau yn edrych ar y cyfoeth o ddata a ddelir ganddynt fel adnodd gwerthfawr, ac yn dyrannu adnoddau ariannol a dynol priodol i sicrhau y defnyddir y data yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.




Diogelu data

Yn aml iawn, mae awdurdodau lleol yn warcheidwaid gwybodaeth sy'n dra phersonol a sensitif. Maent yn trin mathau gwahanol o ddata yn feunyddiol, o wybodaeth am incwm i gofnodion manwl am iechyd a gofal. Fodd bynnag, gwaith tringar ac anodd yw sicrhau cydbwysedd priodol wrth drin data yn y sector cyhoeddus. Mae angen i'r awdurdodau ddiogelu gwybodaeth bersonol rhag ei chamdefnyddio, ond gwneud hynny heb fygu arloesedd. O ganlyniad, mae llawer sefydliad yn y sector cyhoeddus yn ymgodymu â'r buddion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhannu data.



Sgiliau a gallu

Mae'r awdurdodau lleol yn ddeiliaid adnodd enfawr o fewnwelediadau, cudd-wybodaeth a data sydd â'r potensial i ysgogi effeithlonrwydd, llywio'r modd y dyrennir adnoddau, a gwella'n sylfaenol y dull o gyflenwi gwasanaethau. Bydd awdurdod lleol aeddfed yn defnyddio data i wella'i wasanaethau ac i drawsnewid ei sefydliad; a bydd ei staff a'i Aelodau Etholedig yn ddefnyddwyr data medrus a hyderus. Mae meddu ar sgiliau dadansoddi data da, er mwyn llywio a goleuo penderfyniadau ynghylch adnoddau, yn elfen allweddol o agwedd aeddfed at ddefnyddio data.



Penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae gwneud penderfyniadau a ysgogir gan dystiolaeth yn ddull o lywodraethu sy'n cydnabod gwerth penderfyniadau a ategir gan ddata. Fodd bynnag, mae llwyddiant y dull sy'n 'seiliedig ar dystiolaeth' yn dibynnu ar ansawdd y data a gesglir, effeithiolrwydd y modd y'u dadansoddir, a'r prosesau a sefydlir i farnu effaith a pherfformiad.



Tudalen 54

Ymatebion offeryn data ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych

Buom yn gweithredu cyfres o chwech o offerynnau data ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer ein hastudiaeth genedlaethol o lywodraeth leol. Nodir derbynwyr yr offer data a'r cyfraddau ymatebion ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych isod.

Roedd ein hofferynnau data yn gofyn cwestiynau am ystod o faterion yn ymwneud â defnyddio data. Roedd y sylwadau a gafwyd yn taflu goleuni pellach ar y rhwystrau sy'n wynebu'r Awdurdod wrth wneud gwell defnydd o'r data.

Derbynwyr offeryn data	Y nifer a wahoddwyd	Yr ymatebion a ddaeth i law	Y canran a ymatebodd
Swyddogion	133	67	50%
Aelodau Etholedig	47	9	19%
Cyfanswm	180	76	42%



Tudalen 55

Yr hyn a ganfuom yng Nghyngor Sir Ddinbych: Gweledigaeth, arweinyddiaeth a diwylliant



Mae'r Awdurdod eisoes wedi profi rhai o fanteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, er enghraifft wrth ddefnyddio'r rhestr tir ac eiddo lleol (LLPG) i gael cyfeiriadau i fapio darpariaeth y gwasanaethau a'r ardaloedd lle defnyddir carafanau mewn modd preswyl, yn ogystal â mapio'r bobl sy'n agored i niwed, a hynny yn rhan o'i gynllun rheoli llifogydd.

Mae safoni data yn faes y gall yr Awdurdod wneud gwelliannau pellach iddo. Cyfeiriodd yr ymatebwyr i'n hofferyn data at yr angen i integreiddio 'data a gedwir mewn seilos adrannol'. Bydd datblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data yn helpu i adeiladu ar hyn, yn ogystal ag ymestyn manteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth. Bydd sicrhau newid mewn diwylliant yn hanfodol i gyflawni hyn, yn ogystal â safoni, symleiddio ac integreiddio data.

Er mwyn dechrau ar y broses hon, dylai'r Awdurdod gwblhau archwiliad data sy'n canolbwyntio ar fapio'r sawl sy'n cadw'r data, i ba ddiben y mae'n gwneud hynny, a'r modd y bydd y data'n cael eu defnyddio. Roedd yr ymatebwyr i'r offeryn data yn cydnabod y gallai'r GDPR fod o gymorth yn hyn o beth, ond, ar hyn o bryd, bod y data a gedwir ar ffurfiau gwahanol ledled y sefydliad wedi arwain at systemau anghydnaws a pherchnogaeth wasgareddig mewn perthynas â setiau data amrywiol.



Tudalen 56

Yr hyn a ganfuom yng Nghyngor Sir Ddinbych: Diogelu data



Mae canfyddiad awdurdodau lleol o reoliadau diogelu data yn rhoi syniad o'u hawydd i wneud y defnydd gorau o ddata; er enghraifft a yw rheoliadau'n cael eu hystyried yn 'rhwystr i rannu data', neu'n 'fframwaith ar gyfer rhannu data mewn modd diogel'? Yn aml, mae diffyg dealltwriaeth glir o reoliadau diogelu data a'r hyn y maent yn ei olygu yn cyfrannu mwy at ochel rhag risgiau na'r rheoliadau eu hunain.

Yn ystod y cyfnod pan oeddent yn ymateb i'n hofferyn data, cyfeiriodd swyddogion ac Aelodau Etholedig at yr her o gydymffurfio â'r GDPR, gan nodi fod yna ddiwylliant cyffredinol o osgoi risgiau mewn perthynas â rhannu data. Nododd yr ymatebwyr fod rheoliadau diogelu data yn cael eu defnyddio'n rhy aml fel 'esgus' i atal data rhag cael eu rhannu, yn hytrach na chael eu defnyddio i ganolbwyntio ar rannu'r data mewn modd diogel a phriodol er lles y dinesydd.

Mae'r Awdurdod yn casglu data bron bob tro y bydd yn rhyngweithio â'i ddinasyddion, boed hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mae angen iddo sicrhau ei fod yn parhau i ddiogelu'r wybodaeth sydd yn ei feddiant, gan wneud y defnydd gorau o'r cyfoeth hwn o ddata ar yr un pryd. Bydd diweddarau'r protocolau rhannu data, ynghyd â sicrhau bod pob swyddog perthnasol yn cael gwybod amdanynt trwy hyfforddiant diweddarau – sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud – yn helpu i sicrhau y bydd rheolwyr y gwasanaethau yn gwybod pa ddata y gallant eu rhannu, ac ar ba adegau y gallant wneud hynny, felly yn helpu i osgoi unrhyw achos o ochel rhag risgiau sy'n ddiangen ac anghymesur mewn perthynas â rhannu data.


Mewn arolwg o 750 o bobl ledled Cymru, buom yn holi ynghylch yr ymwybyddiaeth o'r modd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio data personol...

36% yn unig oedd wedi'u bodloni bod yr wybodaeth a ddelir gan eu hawdurdod lleol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gynllunio a darparu gwasanaethau

12% yn unig a oedd wedi cael gwybod beth yr oedd eu cyngor yn ei wneud gyda'u data personol.



Yr hyn a ganfuom yng Nghyngor Sir Ddinbych: Sgiliau a gallu



Mae awdurdodau lleol sy'n amlygu lefelau uwch o aeddfedrwydd wrth reoli data wedi integreiddio swyddogaethau corfforaethol hanfodol, er enghraifft llywodraethu gwybodaeth, gwella busnes a datblygu polisi. Bydd y staff mapio, sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data er mwyn meithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data, yn ogystal â'r broses o feithrin gallu'r Awdurdod i ddadansoddi data yn unol â'r adnoddau cyfredol, yn mynd ati i helpu'r Awdurdod i ymgorffori penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ddata, ynghyd â meithrin gwell dirnadaeth o alw cwsmeriaid am wasanaethau.

Mae sicrhau adnoddau digonol a gallu boddhaol yn heriau parhaus i bob awdurdod lleol. Yn Sir Ddinbych, nid oedd nifer helaeth o'r uwch-swyddogion a ymatebodd i'n hofferyn data yn credu bod yr Awdurdod wedi buddsoddi digon o adnoddau i ddadansoddi data mewn modd effeithiol. Os na fydd staff yn cael eu huwchgilio i wneud gwell defnydd o ddata, mae'r Awdurdod mewn perygl o golli cyfleoedd i wella ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd yn yr hirdymor. Bydd buddsoddi i wneud gwell defnydd o ddata yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion ac yn sicrhau effeithlonrwydd hirdymor ar gyfer yr Awdurdod. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi'r hwb perffaith i'r Awdurdod feddwl am yr hirdymor.

Yr hyn a ganfuom yng Nghyngor Sir Ddinbych: Penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth



Mae angen i awdurdodau lleol, yn fwy nag erioed, ddadansoddi data er mwyn ffurfio tystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau. Mae yna seiliau wedi'u gosod yn yr Awdurdod i wneud gwell defnydd o ddata, ond bydd angen iddo wella'r modd y bydd data yn cael eu dadansoddi a'u cyflwyno i benderfynwyr fel y gallant wneud penderfyniadau tryloyw a hyddysg.

Mae deall y data, ynghyd â lefel y dadansoddiad a ddarperir i lywio gwaith cynllunio busnes a'r broses o wneud penderfyniadau, yn faes i'w wella ar gyfer pob awdurdod lleol. Yn ychwanegol at hyn, soniodd sawl Aelod Etholedig am yr her o gael ambell Gyngorydd i ddarllen yr wybodaeth a'r data hanfodol a ddarperir iddynt gan swyddogion cyn y cyfarfodydd. Dylai'r Awdurdod adolygu ystod ac ansawdd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan benderfynwyr, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth honno. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu safonau o ran adrodd ar ddata er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir i'r uwch-swyddog a'r Aelodau Etholedig yn hygyrch, yn hawdd eu deall, ac yn cefnogi'r penderfynwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sydd mor effeithiol â phosibl.

Rhan 3 – Enghreifftiau o arferion da i gynghorau ddysgu oddi wrthynt

Mae adroddiad ein hastudiaeth genedlaethol yn nodi enghreifftiau o arferion da gan sefydliadau sy'n defnyddio data ledled y Deyrnas Unedig. Cynhwysir rhai o'r enghreifftiau hyn isod. Gellir gweld y rhestr gyflawn o arferion da yn yr adroddiad ar yr astudiaeth genedlaethol, ar ein gwefan archwilio.cymru

'Porth' sengl ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol


Mae Bwrdeistref Camden yn Llundain wedi datblygu Mynegai Preswylwyr (CRI) sy'n cyfuno gwybodaeth o nifer o ffynonellau data'r cyngor, er mwyn creu un trosolwg cyson o'r preswylwyr ledled y fwrdeistref a'r gwasanaethau cyngor a ddefnyddir ganddynt. Trwy wneud hyn mae Camden wedi uno gwybodaeth a gedwid gynt mewn compartmentau ar wahân, i roi golwg '360-gradd' ar ymgysylltiad y preswylwyr â'r gwasanaethau. Mae llawer peth cadarnhaol wedi deillio o greu'r CRI, gan gynnwys:

- hwyluso adnabyddiaeth o achosion o is-osod tai cyngor yn anghyfreithlon ac o hawlio lleoedd mewn ysgolion penodol trwy dwyll, a thrwy hynny sicrhau y defnyddir adnoddau gwerthfawr er budd preswylwyr cymwys;
- galluogi'r tîm Gwasanaethau Etholiadol i gynnal cofrestr fanwl-gywir o'r etholwyr yn y fwrdeistref. Gallai CRI ddilysu 80% o'r data ar y rhestr etholwyr (sy'n uwch na'r gyfradd o 50% gan yr adran Gwaith a Phensiynau, a ddefnyddir fel arfer i ddilysu data etholiadol y cyngor); a
- darparu gwybodaeth o bwys critigol sy'n cynorthwyo Hyb Diogelu Amlasiantaethol y cyngor i ganfod newidiadau yng nghyfansoddiad aelwydydd lle mae plant hyglwyf yn byw.

Datblygu arweinyddiaeth data i fod yn drawsnewidiad sefydliadol

Mae Strategaeth Trawsnewid Digidol 2017-2020 Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod angen technoleg ddigidol briodol er mwyn i'r cyngor arbed arian, gwella gwasanaethau a chydweithio'n ddi-dor gyda phartneriaid trwy rannu a defnyddio data o ansawdd uchel. Er mwyn gwella mynediad i wasanaethau a chefnogi'r symudiad i greu rhagor o ddata agored, mae'r Cyngor yn rhoi lle canolog i ennyn hyder y cyhoedd yng nghadernid ei ddiogelwch gwybodaeth, a fydd yn amddiffyn data dinasyddion a busnesau rhag eu camddefnyddio a rhag ymosodiadau seiber.

0100110
0011010
11010011



Meithrin gallu i hybu diwylliant mwy cydweithredol

Mae Sir y Fflint Ddigidol 2017-2022 yn amlinellu'r modd y defnyddir Gwybodaeth Ddigidol a Thechnoleg i gefnogi Blaenoriaethau Gwella a chynlluniau strategol y Cyngor Sir dros y pum mlynedd nesaf. Yr hyn sy'n gwneud Sir y Fflint Ddigidol yn wahanol i strategaethau eraill yw'r ffocws ar wella'r seilwaith digidol lleol, a sicrhau bod gan gwsmeriaid y sgiliau digidol angenrheidiol i gael mynediad i wasanaethau a gwybodaeth ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol, partneriaid a'r trydydd sector i ganfod a chyflenwi hyfforddiant cwsmeriaid effeithiol, er mwyn cynnal y defnydd o'r gwasanaethau digidol a hyrwyddo cynhwysiant.

Rhannu data yn ddiogel a sicr

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (BGC) wedi datblygu corff o wybodaeth a pholisïau i annog rhannu data rhwng y partneriaid cyfansoddol mewn ffordd ddiogel a sicr. Bu'r BGC yn adeiladu ar waith blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac ar ei Strategaeth Gwybodaeth a Phecyn Cymorth Gwybodaeth. Mae'r deunydd hyfforddi'n canolbwyntio ar rannu data yn gyfreithlon, ac yn cyfeirio at Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (CRhBC) a datblygiad ystod o brotocolau a chynhyrchion rhannu gwybodaeth. O ganlyniad, mae'r BGC mewn gwell sefyllfa i ddangos sut y bu'n defnyddio data o ansawdd uchel i bennu ei flaenoriaethau strategol ar gyfer Lles Meddyliol Da i Rai o Bob Oed; Rhoi Grym i Gymunedau; a Gwytnwch Amgylcheddol. Cynhaliwyd trafodaeth realistig ynghylch rôl y BGC a chytunwyd y bydd yn darparu arweinyddiaeth a chraffu o fewn y strwythurau presennol, yn hytrach na rheoli prosiectau ac integreiddio'r trefniadau cyflenwi gwasanaethau.

Defnyddio data agored i feithrin gallu cymunedol a hybu llesiant economaidd

Prosiect cydweithredol yw Data Mill North, a sefydlwyd yn wreiddiol i ymateb i her y cynnydd mewn galwadau yn Leeds, ar adeg pan oedd adnoddau'n lleihau. Nod y prosiect yw galluogi pobl a sefydliadau i archwilio'r gwahanol berthnasau cymhleth rhwng gwasanaethau a busnesau'r ddinas, trwy gasglu ynghyd y Data Agored o amrywiol ffynonellau, mewn un hyb sengl, a fydd yn darparu gwell mewnwelediad i weithrediadau'r ddinas nag a gafwyd erioed o'r blaen. Tair prif flaenoriaeth y prosiect yw sicrhau gwelliant gweladwy mewn iechyd a llesiant; cynyddu nifer a gwella ansawdd y tai a adeiledir; a gwella'r seilwaith teithio a chlodiant. Data Mill North bellach yw'r unig storfa sengl yn y rhanbarth a ddefnyddir gan yr holl wasanaethau cyhoeddus i rannu data, mewnwelediadau a chudd-wybodaeth am ystod eang o bynciau, gan gynnwys y gwasanaethau cyhoeddus lleol, manylion am berfformiad chyfleoedd i fusnesau a'r economi, addysg oedolion, a nifer mawr o setiau data eraill a ffynonellau gwybodaeth am dai.

Mae sylfaenwyr y prosiect yn cefnogi'r sefydliad data agored 'Open Data Institute HQ', a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2013. Mae ODI Leeds yn gweithio i gynyddu gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd Leeds, trwy wella llythrennedd data a datblygu sgiliau. Hyd yma, mae'r prosiect wedi lletya 668 o digwyddiadau, wedi codi cyllid ychwanegol o £883k ac wedi cynorthwyo 228 o bobl i ddod o hyd i swyddi sy'n talu'n well. Mae'r holl ffynonellau data yn Swydd Efrog yn cael eu mapio ar hyn o bryd – gan gynnwys ffynonellau o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Gwneud penderfyniadau a ysgogir gan ddata er mwyn rhoi adnoddau ar waith

Mae Brigâd Dân Llundain (LFB) yn gweithredu allan o dros 100 o orsafoedd tân ar draws Llundain, a hi yw'r gwasanaeth tân ac achub prysuraf yn y Deyrnas Unedig. Mae LFB wedi datblygu Offeryn Darparu Dynamig (ODD) ar y cyd â darparwr o'r sector preifat, i gynorthwyo gyda'r penderfyniadau a wneir mewn ystafelloedd rheoli gwasanaethau brys. Mae'r ODD yn helpu i wella'r ddarpariaeth a wneir rhag digwyddiadau a risgiau, gan sicrhau y defnyddir yr adnoddau mor effeithlon ag y bo modd. Darparu dynamig yw'r broses o adleoli'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cynnal darpariaeth o safon briodol, o ran risg ac o ran y gallu i ymateb, ledled yr ardal. Mae'r meddalwedd ODD yn darparu cymhorthyn gweledol amser real i'r swyddog rheoli argyfwng mewn cerbyd sydd ar y ffordd i ymateb i'r argyfwng.

Tudalen 63

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

05 MEHEFIN 2019		Eitemau Sefydlog		
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans	
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale	
	3	Y diweddaraf am Archwilio Mewnol (diweddariad CIPFA)	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove	
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd	
Tudalen 65		Adroddiadau		
	5	Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove	
	6	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd – Gary Williams	
	7	Her Gwasanaeth - Adroddiad Gwasanaeth	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith,	
	8	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove	

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

	9	Adroddiad diweddarau – yr uned gaffael ar y cyd (tbc – requested at 23/01/19)	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove	
	10	Crynodeb o'r model cyflawni amgen	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith	
	11	RIPA Blynyddol (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000)	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd / Gary Williams (Lisa Jones - cyswllt)	
19 CORFFENNAF 2019 66 Ueiliog		Eitemau Sefydlog		
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans	
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale	
	3	Y diweddaraf am Archwilio Mewnol (diweddariad CIPFA)	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove	
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd	
			Adroddiadau	
	5	Datganiad Cyfrifon Drafft	Pennaeth Cyllid - Richard Weigh	

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

	6	Rheoli Trysorlys	Pennaeth Cyllid - Richard Weigh	
	7	Adroddiad blynyddol am y Cyfansoddiad	Gary Williams - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd / Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol	
	8	Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio – Alan Smith	
	9	Adroddiad Gwella Blynyddol SAC	SAC / Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio – Alan Smith	
	10	Adroddiad diogelu		
Tudalen 67				
	11	MEDI 2019	Eitemau Sefydlog	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans	
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale	
	3	Y diweddaraf am Archwilio Mewnol (diweddariad CIPFA)	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove	
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd	
		Adroddiadau		

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

	5	Adroddiad Blynyddol ar Rannu Pryderon	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd / Gary Williams	
	6	Adroddiad RIPA Blynyddol (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000)	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd / Gary Williams	
	7	Datganiad llywodraethu blynyddol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove	
	8	Rheoli gwybodaeth mewn ysgolion	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove	
Tudalen 69	9	Y diweddaraf am y gyllideb	Pennaeth Cyllid - Richard Weigh	
	10	Cynllun cyfalaf ariannol	Pennaeth Cyllid - Richard Weigh	

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag